Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyngor Partneriaeth y Gweithlu – Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

**Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ('y Cyngor') yn dod â'r undebau llafur, cyflogwyr y sector cyhoeddus datganoledig a Llywodraeth Cymru at ei gilydd. Fe'i cydnabyddir gan bob un o'r tri phartner cymdeithasol fel y fforwm allweddol ar gyfer materion yn ymwneud â'r gweithlu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

Mae'n ceisio dod i gytundeb ar faterion sy'n berthnasol ar draws gwasanaethau cyhoeddus neu i'r holl wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor wedi datblygu canllawiau arfer gorau a chyfres o gytundebau ffurfiol.

Cyngor Partneriaeth y Gweithlu
Workforce Partnership Council

Fel enghraifft, cynhyrchodd y Cyngor gytundeb ar gyfer y Defnydd Priodol o Drefniadau Oriau Heb Eu Gwarantu mewn Gwasanaethau Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru, gan nodi egwyddorion clir a phroses weithredu fanwl i gefnogi newidiadau i drefniadau cytundebol.

Mae pob aelod wedi cytuno y dylid gweithredu ei ddarpariaethau yn y sectorau a gwmpesir gan y Cyngor, gan weithio drwy gyrff cynrychioliadol perthnasol partneriaid cymdeithasol.



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46974,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg